**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 19-00(p2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **13 Rhagfyr 2000** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Cymhorthion Gweithredu ac Amrywiadau Cyllidol** |

**RHAGYMADRODD**

1. Yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin, gofynnodd y Pwyllgor DatEcon am waith pellach ar y cynigion ar gyfer cymhorthion gweithredu, gan gymryd i ystyriaeth y pwyntiau a godwyd gan y Trysorlys yn y cyfarfod.

2. Yn y Cytundeb Partneriaeth "Rhoi Cymru'n Gyntaf", ceir yr ymrwymiad: *"Er mwyn sicrhau bod statws Amcan 1 yn cael yr effaith fwyaf posibl yn ystod y cyfnod rhaglennu byddwn yn bwrw ati'n ddygn i ganfod a oes posibl sefydlu amrywiadau cyllidol ac unrhyw fesurau arbennig eraill a all sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf o fanteision y statws cymorth gwladol rhanbarthol a roddwyd i Orllewin Cymru a'r Cymoedd." Ar 6 Rhagfyr, aeth y Dirprwy Brif Weinidog i Frwsel ar ymweliad casglu gwybodaeth er mwyn cychwyn y broses.*

3. Mae'r papur yn disgrifio'r hyn sydd wedi digwydd o ran datblygu cynigion, prif ymatebion y Comisiwn a'r gwaith mae gofyn ei wneud i gwblhau'r gwaith.

**CYNLLUNIAU CYLLID CYMRU**

4. Disgwylir y bydd DG Comp yn cymeradwyo'r holl fenthyciadau a ddarperir gan Cyllid Cymru fel rhai nad oes ynddynt elfen o Gymorth. O ganlyniad, gellid cynnig union yr un cynhyrchion ledled Cymru waeth beth yw statws yr ardal. (Gan gynnwys y cronfeydd benthyca a'r cynllun cymorth llog). I'r perwyl hwn, bydd Cyllid Cymru yn cynnig benthyciadau yn ôl cyfraddau'r farchnad. Caiff y cyfraddau eu hadolygu bob blwyddyn a'u cymhwyso yn ôl cyflwr y Cronfeydd. Dylid felly medru ailgylchu'r Cronfeydd a hynny yn ddi-dor i'r dyfodol.

**Y Cynllun Cymorth Llog**

5. Bydd llog y farchnad yn rhy uchel ar gyfer ambell brosiect. Mewn achosion o'r fath, gallai Cyllid Cymru gynnig cymhorthdal i leihau'r gyfradd a thrwy hynny, gostwng y llog y gofynnir i gwmnïau ei dalu. Bydd maint y cymhorthdal yn dibynnu ar y prosiect. Bydd hefyd yn dibynnu ar y rheolau de minimus, yn arbennig y rheol sy'n dweud na all gwerth cronnus cymorth de minimus dros gyfnod o dair blynedd fod yn fwy na 100,000 Ewro. Fel enghraifft, byddai'r terfyn

hwn yn ddigon uchel i ganiatau dau y cant o ostyngiad ar fenthyciad o £1 miliwn. Ni fydd yr un benthyciad bach fyth gymaint â hynny. Daw pob math o gymorth de minimus mewn unrhyw gyfnod o dan y terfyn hwn, felly bydd cymorth de minimus gan awdurdod lleol neu gorff lleol yn cyfrif at y cyfanswm ac yn lleihau'r uchafswm y gellid cael cymorth llog ar ei gyfer.

6. Bydd y cynllun hwn yn cael ei redeg ar y cyd â Chronfa Fenthyca a Mezzanine Cyllid Cymru sy'n ymdrin yn benodol â diffygion yn y farchnad. Mae'n gynllun de minimus ac nid oes angen cydsyniad DG Comp arno. Mae DG Comp yn gwybod amdano yn sgil ein trafodaethau gyda nhw ar brosiect Amcan 1 Cyllid Cymru.

**Cronfa Ecwiti Ddarostyngol**

7. Un elfen o brosiect Amcan 1 Cyllid Cymru yw creu Cronfa Ecwiti gwerth £24 miliwn. Bydd hon hefyd yn helpu i unioni diffyg yn y farchnad. Fel ag yn achos Cronfa Fenthyca Cyllid Cymru, er mwyn medru cynnig union yr un gynhyrchion ledled Cymru, ni fydd elfen o Gymorth yn y gronfa hon. Yn ôl DG Comp, gellid gwneud hynny trwy fabwysiadu cynllun 'pari passu' – sef cynllun lle byddai'r partneriaid sector preifat a chyhoeddus yn rhannu'r enillion a'r colledion yn gyfartal. O'u rheoli'n iawn, dylid medru ailgylchu cynlluniau o'r fath.

8. Gellid disgwyl felly, gan y byddai'r partner sector preifat yn debygol o ddisgwyl elw digonol, gallai cronfa o'r fath ond delio â'r prosiectau mwyaf addawol. Er mwyn darparu cyllid ecwiti i ystod ehangach o gwmnïau – bydd dal gofyn iddynt fod yn hyfyw, er y byddant yn llai deniadol efallai – byddai gofyn creu Cronfa Ecwiti Ddarostyngol. O dan y trefniadau hyn, byddai partneriaid y sector cyhoeddus yn addo ysgwyddo'r colledion cychwynnol er mwyn i'r partneriaid sector preifat gael elw ar eu buddsoddiad. Heb gryn lwc, nid oes ffordd amlwg i ailgylchu'r cynlluniau hyn a gellid casglu o hynny y bydd gofyn 'ategu' cronfeydd partneriaid y sector cyhoeddus o dro i dro.

9. Cymorth Gweithredu yw'r rhain yn ôl DG Comp. Nid i'r cwmni bach sy'n derbyn yr ecwiti y mae'r arian yn mynd ond i'r partner sector preifat yr addawyd iddo elw ar ei fuddsoddiad. Diben Cymorth Gweithredu yw annog sefydliadau ariannol i fuddsoddi yn ardaloedd llai addawol – h.y. ardaloedd Amcan 1.

10. Mae staff y Cynulliad Cenedlaethol a Cyllid Cymru yn rhoi blaenoriaeth i sefydlu Cyllid Cymru a rhoi'r prosiect Amcan 1 cysylltiedig ar waith. Bydd y gwaith ar y cynnig yn dechrau'n fuan wedi'r Flwyddyn Newydd ac yn dilyn bron i'r llythyren y cynllun Gwyddelig y gwnaeth DG Comp ei gymeradwyo ychydig fisoedd yn ôl. Nid ydym felly yn rhagweld y cawn anhawster i gael DG Comp i'w gymeradwyo. Nid ydym yn chwilio am arian craidd oddi wrth ERDF ar gyfer y cynllun hwn. Ar gyfer 2001-02, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu £5 miliwn o arian hyblyg diwedd blwyddyn ar gyfer y cynllun hwn. Dylai hynny olygu creu cronfa gwerth £10 miliwn ar gyfer ardal Amcan 1. Gwahoddir partneriaid sector preifat i dendro i gymryd rhan yn y cynllun.

**TRETHI BUSNES**

11. Fel y DETR yn Lloegr, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghori ar ddyfodol Cyllid Llywodraeth Leol. Cafodd papur ymgynghori ei gyhoeddi ar 22 Medi a bydd y cyfnod ymgynghori yn para tan ddiwedd y flwyddyn. Mae'n debyg y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol i roi'r argymhellion a geir yn sgil cynnal yr ymgynghoriad ar waith. Mae Cabinet y Cynulliad yn awyddus i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi pwerau cyffredinol iddynt allu datblygu trywydd *Cymreig* ar wahân ac effeithiol.

12. Un agwedd ar Gyllid Llywodraeth Leol fydd yn rhaid ei hystyried pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben yw a ddylai cynllun cymorth y dreth i fusnesau bach fod yn garedicach i fusnesau'r Gorllewin a'r Cymoedd nag i fusnesau rhannau eraill o Gymru. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried. Maent yn cwympo i ddau grp : ariannol a chystadleuol.

13. Tua £630 miliwn yw'r cyfanswm a geir o drethi busnes yng Nghymru. Hanfod yr ystyriaeth ariannol yw pwy ddylai talu am y cynllun. Y ddogfen allweddol yn hyn o beth yw'r *Statement on Funding Policy* y mae'r Cynulliad a'r Trysorlys wedi cytuno arni. Yn ôl y Datganiad, pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn dewis defnyddio'i bwerau i leihau'r hyn a geir o drethi busnes, a thrwy hynny, cynyddu cyfraniad y Trysorlys at wariant awdurdodau lleol, mae perygl y câi'r incwm trethi busnes a gollir ei dynnu o grant bloc y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r newid hwn yn adlewyrchu'r newid yng Nghymru mewn perthynas â'r newid y cytunwyd arno ar gyfer Lloegr gan y DETR. Mae'r cytundeb presennol yn golygu felly mai'r Cynulliad fyddai'n gorfod ariannu cymorth gweithredu a ddarperir yng Nghymru'n unig. Pe bai cymorth gweithredu tebyg yn cael ei gyflwyno ar draws Ardaloedd Amcan 1 Lloegr, byddai dadl gref o blaid peidio â gostwng bloc y Cynulliad.

14. Y naill ffordd neu'r llall, mae hi yn *bosibl* y bydd gofyn i'r Cynulliad ariannu cynllun o'r fath. Mae dau ddewis:

- Gellid gwneud iawn am y gostyngiad yn yr incwm trethi busnes trwy leihau cyllidebau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.
- Gellid talu am y gostyngiad trwy gynyddu'r trethi ar fusnesau nad ydynt yn elwa ar y cynllun. Gan mai ar gyfer busnesau bach y bwriedir y cynllun dan sylw, gallai olygu cynnydd bychan i fusnesau mawr a bach yn y Dwyrain, ond cynnydd yn hytrach na gostyngiad i fusnesau mawr yn y Gorllewin a'r Cymoedd. Mae yna ffyrdd eraill o dargedu trethi busnes is, ond mae goblygiadau iddynt o ran sut i rannu'r anfanteision.

15. Yn ddamcaniaethol, gellid defnyddio Amcan 1 i gynnig trydedd ffordd o ariannu gostyngiad yn nhrethi busnes y Gorllewin a'r Cymoedd. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid rhewi'r arian ar gyfer elfen bwysicaf Amcan 1 – Cymorth i Fusnesau ym Mlaenoriaeth 1, Mesur 1 – tan y byddai DG Comp yn cymeradwyo'r Cymorth Gweithredu. Byddai hynny'n cynnwys pob math o Gymorth Gwladol y mae'n rhaid i DG Comp ei gymeradwyo, nid Cymorth

Gweithredu yn unig. Yn y trafodaethau rhwng y DU a'r Comisiwn yn gynharach eleni, cytunwyd bod holl Ddogfennau Rhaglennu Sengl pob un o ardaloedd Amcan 1 y Deyrnas Unedig, gan gynnwys dogfen y Gorllewin a'r Cymoedd, yn cynnwys testun sy'n caniatau ffurfiau newydd o Gymorth Gwladol heb fod angen am benderfyniadau ffurfiol i ddiwygio'r Dogfennau Rhaglennu Sengl.

16. O ran cystadleuaeth, mae'r ffordd y targedir unrhyw ostyngiad yn y dreth fusnes yn dibynnu ar ba ddiffyg yn y farchnad y mae'r gostyngiad yn ceisio'i luniaru. Mae DG Comp yn mynnu bod yn rhaid wrth ddiffyg penodol yn y farchnad i gyfiawnhau pob Cymorth Gweithredu, a bod y Cymorth hwnnw yn mynd i'r afael yn benodol â'r diffyg hwnnw. Fodd bynnag, nid yw bodolaeth diffyg yn y farchnad ynddo'i hun yn cyfiawnhau ymyriad cyhoeddus. Dylai'r ymyriad anelu at ddiddymu'r diffyg trwy sicrhau newid cynhaliol yn y farchnad.

## CREDYD TRETH BUDDSODDI CYMUNEDOL

17. Cynnig gan y Trysorlys yw hwn, yn sgil Adroddiad Rhag-gyllidebol diweddar y Canghellor. Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu at drafod y dewis. Nid yw'n barod eto ar gyfer ei gyhoeddi.

18. Egwyddor sylfaenol y cynllun, fel ag y'i amlinellwyd yn adroddiad y Canghellor ac adroddiad y Tasglu Buddsoddi Cymdeithasol, yw rhoi credyd treth i gwmnïau sy'n buddsoddi mewn cynlluniau cyllid cymunedol mewn ardaloedd difreintiedig. Mae cynlluniau cyllid cymunedol yn helpu busnesau bach, neu weithgareddau adfywio cymunedol mwy traddodiadol, gan gynnwys mentrau cymunedol.

19. Mae'r cynllun, yn ei hanfod, yn debyg o safbwynt Cymorth Gwladol i'r Gronfa Ecwiti Ddarostyngol a ddisgrifir uchod. Mae'r budd, ar ffurf Credyd Treth yn hytrach na gwarant o elw, yn mynd i'r sefydliad ariannol sy'n buddsoddi mewn cyrff cyllid cymunedol er mwyn annog y sefydliadau hynny i fuddsoddi mewn ardaloedd llai addawol. Disgwylir i Lywodraeth yr Eidal gynnig cynllun tebyg i DG Comp ar gyfer de'r Eidal. Nid yw'r DG Comp, er ei fod yn gwybod amdano, wedi dweud a yw'n dderbyniol na chwaith a fydd yn ei ystyried fel Cymorth Gweithredu.

## YR ATODIAD CREDYD TRETH AR GYFER YMCHWIL A DATBLYGU YN ARDALOEDD AMCAN 1

20. Hyd yma, nid yw'r syniad hwn wedi cael cefnogaeth y Trysorlys, yn bennaf oherwydd y perygl o golledion, yn yr ystyr y gallai cwmnïau fod yn gymwys am y credyd heb wneud gwaith Ymchwil a Datblygu yn ardal Amcan 1. Barn y Trysorlys yw y byddai'n amhosibl rhwystro'r colledion hyn heb gostau cydymffurfio trwm ar Lywodraeth a busnesau fel ei gilydd.

21. Ein barn gyffredinol ni yw bod y cynnig hwn yn mynd i'r afael yn benodol iawn ag un o

broblemau diwydiannol mwyaf Cymru. Byddai'n anodd dadlau nad yw'r torreth o waith Ymchwil a Datblygu sy'n digwydd yn y De Ddwyrain yn ddiffyg yn y farchnad, gan mai cwmnïau mawr gan fwyaf sy'n gwneud gwaith Ymchwil a Datblygu. Er hynny, ceir cryn unfrydedd y gallai busnesau bach wneud mwy o Ymchwil a Datblygu ac y byddai'n ffynhonnell ddatblygu bwysig yn yr economi wybodaeth. Rydym felly'n ceisio mireinio'r cynnig er mwyn cadw'r colledion mor fach â phosib ond gan osgoi'r costau cydymffurfio trwm. At y diben hwnnw, rydym wedi trafod y mater gydag arbenigwr mewn trethi. Un canlyniad y trafodaethau yw'r angen am fwy o fanylion am fesurau cymharol sy'n cael eu gweithredu yn Iwerddon. Byddai'n rhaid i unrhyw gynllun gael cydsyniad y Trysorlys.

**YMATEB BRWSEL**

22. Yn dilyn cyfarfod defnyddiol a llawn gyda'r Cyfarwyddwr Cymorth Gwladol yn DG Comp, codwyd y pwyntiau canlynol:

23. Mae dal digon o amser ar ôl i gyflwyno cynigion ar gyfer cymorth gweithredu neu fesurau cyllidol eraill i'r Comisiwn iddynt eu hystyried.

24. Nid yw'r Comisiwn yn or-hoff o Gymhorthion Gweithredu ac fe'u goddefir yn unig yn rhanbarthau Erthygl 87(3)a os oes digon o gyfiawnhad. Rhaid targedu Cymhorthion Gweithredu'n ofalus a'u cyfiawnhau o safbwynt anfanteision y rhanbarth sy'n derbyn Cymorth a rhaid i'r Cymorth fod yn "gymharus" â'r problemau y ceisir eu datrys. Mae hwn yn faes goddrychol iawn a rhaid wrth ddadleuon cadarn.

25. Gellir darparu amrywiadau cyllidol trwy gymhorthion buddsoddi a chymhorthion gweithredu. Mae'n well gan y Comisiwn gymhorthion buddsoddi sy'n gysylltiedig â chynyddu buddsoddiad neu gynyddu swyddi yn yr ardal a gynorthwyir.

26. Gall mesurau sectorol megis credyd treth ar gyfer Ymchwil a Datblygu gynnwys cynnydd ar gyfer rhanbarthau Erthygl 87(3)a ac Erthygl 87(3)c.

27. Ni fydd yn rhaid hysbysu DG Comp am ostyngiadau "de minimus" yn y dreth fusnes i gwmnïau bach h.y. llai na 100,000 ewro dros 3 blynedd i'r sawl a gynorthwyir. Rhaid bod yn ofalus ag effaith gronnus cynllun o'r fath ar gynlluniau de minimus eraill.

28. Mae cymeradwyo cronfeydd cyfalaf menter a chronfeydd eraill fel y rhai sydd eisoes yng nghynigion Cyllid Cymru yng ngolwg y Comisiwn yn fater cymhlethach nag amrywiadau cyllidol.

**YMGYNGHORI AG AWDURDODAU TRETH IWERDDON**

29. Rydym eisoes wedi mynd ar ofyn awdurdodau treth Iwerddon a chael gwybod ganddynt eu bod yn fwy na pharod i'n cynghori ar sut y gallai mesurau treth ein helpu ni i adfywio'r

Gorllewin a’r Cymoedd. Fodd bynnag, gofynnwyd inni ohirio’r ymweliad tan ar ôl eu cyllideb, ar 6 Rhagfyr. Mae ymweliad yn cael ei drefnu ar gyfer dechrau Ionawr 2001.

30. Fel ag a nodwyd uchod, un o’r eitemau ar yr agenda yw’r posibilrwydd o ddiwygio’r atodiad credyd treth ar gyfer Ymchwil a Datblygu er mwyn osgoi colledion. Ystyrir posibiliadau eraill hefyd.

**CASGLIADAU**

31. Mae’n amlwg bod sawl cyfle i Gymru ddatblygu ac ehangu’r dewis o amrywiadau cyllidol a chymhellion eraill i atgyfnerthu Rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol. Daw’r cyfleoedd hyn o:

Y cynigion yn natganiad rhag-gyllidebol y Canghellor,

Y Papur Gwyrdd ar Gyllid Llywodraeth Leol

Yr ymateb a gafwyd ym Mrwsel i gymorth gweithredu a chymorth buddsoddi a’r posibiliadau i wneud y gorau o gynlluniau Cymorth Gwladol rhanbarthol newydd yng Nghymru.

32. Oherwydd natur sensitif a thechnegol y gwaith hwn a’i fanteision posib i economi Cymru, efallai y dylid mynd ar ofyn cyngor arbenigol yn fuan wedi’r flwyddyn newydd. Os felly, bydd gofyn am drefniadau carlam ar gyfer caffael cyngor o’r fath. Bydd gofyn i’r Cynulliad gyflogi ymgynghorwyr i’w helpu i glustnodi prif anfanteision y rhanbarth a gwendidau strwythurol yr economi yn y Gorllewin a’r Cymoedd a’r ffyrdd mwyaf effeithiol a realistig o’u trechu, trwy amrywiadau cyllidol priodol, boed gymhorthion gweithredu neu gymhorthion buddsoddi neu ddulliau eraill. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ystyried gofidiau, cyfyngiadau a chyfleoedd o du Whitehall a’r Comisiwn.